# Crynodeb

Mae 2020 wedi bod yn flwyddyn arwyddocaol i fasnach rhyngwladol a'r DU. Yn sgil gadael sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd ym mis Ionawr, mae'r DU wedi medru cynnal ei pholisi masnach ei hun am y tro cyntaf ers dechrau'r 1970au. Mae hefyd wedi ymgymryd â thrafodaethau gyda'r UE i sicrhau cytundeb masnach a fyddai'n dod i rym ar ddiwedd y cyfnod pontio Brexit. Nodwn fod Llywodraeth Cymru wedi gofyn i Lywodraeth y DU geisio ymestyn y cyfnod pontio oherwydd effaith pandemig y coronafeirws. Felly, mae cwestiynau yn ymwneud â phwy yr ydym yn masnachu â hwy, beth yr ydym yn ei fasnachu a sut i ddiogelu a hyrwyddo buddiannau economaidd wedi dod yn fwyfwy arwyddocaol i Gymru.

Ym mis Mawrth 2020, lansiwyd ein hymchwiliad i Brexit a Masnach: y goblygiadau i Gymru. Mae ein hymchwiliad wedi canolbwyntio nid yn unig ar drafodaethau masnach rhwng y DU a'r UE, sydd yn ddi-os yn bwysig i Gymru, ond hefyd ar drafodaethau'r DU â gwledydd y tu hwnt i'r UE. Mae ein hadroddiad yn edrych ar bedwar maes eang ag iddynt arwyddocâd arbennig i Gymru:

i) Cysylltiadau rhyng-lywodraethol,

ii) Cysylltiadau masnach gyda'r UE yn y dyfodol,

iii) Trefniadau tollau a phyrth mynediad yn dilyn y cyfnod pontio,

iv) Masnach gyda gwledydd y tu hwnt i'r UE.

**Cysylltiadau rhyng-lywodraethol**

Mae polisi masnach yn fater heb ei ddatganoli, ac felly Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol amdano. Serch hynny, mae polisi masnach yn gorgyffwrdd â phwerau datganoledig mewn rhai meysydd, gan gynnwys amaethyddiaeth, yr amgylchedd a datblygiad economaidd. Yn ystod yr ymchwiliad, clywsom fod cysylltiadau rhwng Llywodraeth Cymru a'r Adran Fasnach Rhyngwladol (DIT) yn gadarnhaol ar y cyfan, ond bod y berthynas gyda Llywodraeth y DU ynghylch trafodaethau masnach rhwng y DU a'r UE yn fwy cymysg. Mae ein hadroddiad yn argymell y dylid ymgynghori yn rheolaidd â'r gweinyddiaethau datganoledig wrth ddatblygu strategaethau masnach ar gyfer y DU gyfan.

Mae ein hadroddiad yn croesawu'r berthynas gadarnhaol rhwng DIT a Llywodraeth Cymru ac yn disgwyl i DIT gadarnhau'r trefniadau llywodraethu ar y cyd â'r gweinyddiaethau datganoledig trwy gytuno ar goncordat erbyn mis Ionawr 2021. Yn yr un modd, rydym hefyd yn croesawu sefydlu Fforwm Gweinidogaethol ar gyfer Masnach fel mecanwaith i gysylltu gweinyddiaeth y DU â'r rhai datganoledig.

**Cysylltiadau masnach gyda'r UE yn y dyfodol**

Yr UE yw'r prif farchnad ar gyfer allforio nwyddau a chynnyrch amaethyddol o Gymru, gyda chanran uwch o nwyddau o Gymru (61%) yn cael eu hallforio a'u mewnforio o'r UE o'i gymharu â gweddill y DU (43%). O'r herwydd, mae sicrhau cytundeb masnach gyda'r UE yn neilltuol o bwysig i economi Cymru. Clywsom yn gyson gan arbenigwyr

masnach, academyddion ac arbenigwyr ar wahanol ddiwydiannau y byddai trefniant heb unrhyw dariff na chwota yn fwy buddiol i economi Cymru na masnachu yn gyfan gwbl yn ôl amodau Sefydliad Masnach y Byd (WTO).

Gan nad yw canlyniadau'r trafodaethau yn bendant wrth i'r adroddiad hwn gael ei ysgrifennu, mae'n dod i'r casgliad y bydd cytundeb masnach rhydd gyda'r UE yn dileu'r bygythiad uniongyrchol sy'n deillio o dollau niweidiol ac yn gosod sylfaen gref i alluogi Cymru i fwynhau perthynas fasnach agos gyda'r UE yn sgil Brexit. Gallai hefyd olygu buddsoddiad pwysig y mae dirfawr ei angen ar economi Cymru. Ar y llaw arall, mae perygl y gallai ymadael heb gytundeb arwain at fwy o niwed i economi Cymru o'i gymharu â gweddill y DU. Nid ydym yn derbyn y byddai hyn yn ganlyniad da i economi Cymru, ac nid ydym o'r farn y byddai cytundeb tebyg i'r un rhwng yr UE ac Awstralia bron cystal â'r cytundeb masnach rhydd y mae'r DU yn ei drafod gyda'r UE.

Serch hynny, rydym hefyd yn cydnabod - hyd yn oed â chytundeb - y bydd gwahaniaethau pwysig yn nhrefniadau masnach rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol gan na fydd y DU bellach yn rhan o'r Farchnad Sengl na'r Undeb Tollau. Mae'r gwahaniaethau hyn yn golygu y ceir prosesau a gweithdrefnau tollau newydd, ymysg pethau eraill, a bydd angen i fusnesau addasu yn gyflym. Er enghraifft, rydym yn pryderu am oblygiadau'r prosesau a'r gwiriadau newydd ar gyfer y gadwyn gyflenwi sy'n dibynnu ar gyrraedd mewn pryd. Rydym felly yn argymell y dylai Llywodraeth y DU barhau i weithio gyda'r UE a grwpiau busnes yn 2021 er mwyn ystyried sut y gellir lleihau rhwystrau di-dariff a chostau a beichiau ychwanegol i gynhyrchwyr o Gymru.

Os na cheir cytundeb, rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y DU ysgrifennu atom gyda thystiolaeth o'r paratoadau a'r cynigion i liniaru unrhyw beryglon penodol i economi Cymru o ganlyniad i fasnachu gyda'r UE yn ôl termau Sefydliad Masnach y Byd.

**Prosesau tollau a phyrth mynediad yn dilyn y cyfnod pontio**

Bydd masnachu gyda'r UE o 1 Ionawr 2021 ymlaen yn golygu cwblhau datganiadau tollau ar gyfer mewnforio ac allforio ynghyd â phrosesau a gweithdrefnau tollau newydd. Bydd gweithredu unrhyw reolau ffiniau ar fewnforion i Brydain Fawr o'r UE yn digwydd mewn tri cham hyd at 1 Gorffennaf 2021. Serch hynny, tra bod ein hadroddiad yn croesawu cyflwyno gwiriadau a phrosesau yn raddol fel rhan o Gynllun Gweithredu'r Ffin, rydym yn pryderu pa mor barod yw porthladdoedd Cymru ar eu cyfer o ran isadeiledd a'r lle ynddynt neu'n agos atynt i ymgymryd â'r prosesau a'r gofynion newydd hyn.

Rydym yn rhoi sylw arbennig i Borthladd Caergybi, un o borthladdoedd pwysicaf y DU ag iddo rôl allweddol yn economi Cymru ac economi ehangach y DU. Er i Stena Line ddweud ei fod yn cymryd pob cam posib i baratoi ar gyfer prosesau a gwiriadau masnachu newydd yn dilyn y cyfnod pontio, mae ein hadroddiad yn mynegi pryder ynghylch y goblygiadau posib i'r porthladd a'r ardal ehangach yn sgil cyfuniad o systemau TG newydd sydd heb eu gwirio, gwiriadau a phrosesau newydd a allai fod yn helaeth.

Mae'r adroddiad yn tanlinellu mai un o'r prif ffactorau sy'n peri ansicrwydd yng nghyd-destun Caergybi yw lleoliad cyfleusterau mewndirol ar gyfer caniatáu mynediad ac ymadawiad nwyddau. Er i'r penderfyniad i gynnal gwiriadau a phrosesau tollau yn yr ardal o amgylch y porthladd yn hytrach nag yn y porthladd ei hun gael ei ystyried fel rhywbeth cadarnhaol, rhybuddia'r adroddiad y gallai arwain at dagfeydd mawr ychydig filltiroedd i ffwrdd o'r porthladd.

Mae effaith bosib unrhyw dagfeydd ar Borthladd Caergybi ac Ynys Môn yn gyffredinol, wrth gwrs, yn dibynnu ar safle'r ganolfan. Yn yr adroddiad mynegwn ein pryder dwys nad oes penderfyniadau wedi eu gwneud eto ynghylch lleoliadau cyfleusterau mewndirol ar gyfer Porthladd Caergybi a rhai tebyg yn Ne-Orllewin Cymru, a hynny mor agos at ddiwedd y cyfnod pontio, a'r amser hefyd yn brin tan i'r gwirio llawn ddod i rym yng Ngorffennaf 2021. Hyd yn oed pe bai modd sicrhau caniatâd cynllunio brys, rhybuddiwn mai dim ond cyfnod byr sydd ar gyfer adeiladu a rhoi'r cyfarpar priodol yn y lleoliadau i fod yn barod ar gyfer miloedd o wiriadau a phrosesau posib yn ddyddiol.

Yn gyffredinol rydym yn dod i'r casgliad bod perygl sylweddol ac annerbyniol na fydd gan Ogledd na De-Orllewin Cymru gyfleusterau mewndirol addas a fydd yn barod erbyn Gorffennaf 2021. Rydym felly yn galw ar Lywodraeth y DU i gyhoeddi'r cynlluniau sydd ganddi wrth gefn ar gyfer gwirio nwyddau sy'n cyrraedd Caergybi ac Abergwaun/Penfro os nad yw'r cyfleusterau mewndirol yn weithredol erbyn mis Gorffennaf. Hefyd, dylai Llywodraeth y DU ddatgan yn glir a yw'r cynlluniau wrth gefn yn cynnwys gwirio yn y porthladd ei hun neu beidio, gan roi manylion y mesurau y bydd yn eu cymryd i sicrhau cyn lleied o darfu â phosibl.

**Masnach gyda gwledydd y tu hwnt i'r UE**

Mae ein hadroddiad yn dod i ben gydag archwiliad o oblygiadau trafodaethau Llywodraeth y DU gyda gwledydd y tu hwnt i'r UE i Gymru. Rydym yn croesawu'r cynnydd a wnaed yn y trafodaethau gyda gwledydd eraill a bwriad Llywodraeth y DU i ymuno â Phartneriaeth Gynhwysfawr a Chynyddol Traws-Dawelfor (CPTPP). Serch hynny, rydym yn cydnabod bod rhyddfrydoli masnach yn dod â pheryglon a chyfleoedd i gynhyrchwyr o Gymru, ac rydym yn galw ar Lywodraeth y DU i weithio gyda Llywodraeth Cymru a busnesau yng Nghymru i archwilio sut i hyrwyddo cynnyrch o Gymru yn y modd mwyaf effeithiol ledled y byd.

Rydym yn croesawu'r Cytundeb Partneriaeth Economaidd Gynhwysfawr rhwng y DU a Japan, sef cytundeb masnach rhydd cyntaf y DU fel gwlad sy'n masnachu'n annibynnol. Rydym yn enwedig yn croesawu'r ymgynghori rhwng Llywodraethau'r DU a Chymru yn ystod y trafodaethau, ac yn annog Llywodraeth y DU i barhau ac i adeiladu ar hyn wrth drafod cytundebau masnach rhydd eraill, yn ogystal â'r dynodiadau daearyddol gwarchodedig ar gyfer 15 math o gynnyrch o Gymru yn y cytundeb rhwng y DU a Japan.

O ran safonau cynhyrchu bwyd a safonau rheoleiddiol eraill, rydym yn croesawu trosglwyddo safonau cynhyrchu bwyd presennol yr EU i gyfraith y DU a'r sicrwydd a dderbyniwyd gan weinidogion y DU na fyddai'r safonau uchel hyn yn cael eu gwanhau. I gloi, credwn ei bod yn hanfodol nad yw safonau rheoleiddiol y DU yn cael eu peryglu mewn unrhyw drafodaethau masnach yn y dyfodol, a rhybuddiwn y byddai unrhyw

ymgais i ddadwneud safonau cynhyrchu bwyd y DU er mwyn sicrhau cytundebau masnach rhydd gydag allforwyr amaethyddol mawr yn bradychu buddiannau amaethyddol Cymru.